Natur Ar Eich Stepen Drws

AMGUEDDFA CYMRU

# Sylwi ar Wymon yng Nghymru - cochion a gwyrddion

Mae tua 450 math gwahanol o wymon yng Nghymru! Edrychwch am rai o'r rhain a rhannwch eich canfyddiadau gyda ni ar Twitter @CardiffCurator. Cymerwch ofal ar lan y môr, sicrhewch eich bod yn gwybod os yw'r llanw'n dod mewn neu fynd allan, a chadwch lygad ar y llanw ar eich taith yn ôl i'r traeth.

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

008



## Delysg

i 50 cm*

*Palmaria palmata*

Mae'r gwymon bwytadwy hwn yn gallu cael ei droi'n greision neu'n cael ei ddefnyddio i roi blas. Mae'n gyffredin ar lannau creigiog a hefyd yn tyfu ar wymon mawr arall, megis môr-wiail.

Gall fod clytiau o Fatiau Môr ar ddarnau hŷn o wymon. Clystyrrau o anifeiliaid bach (bryosoaid) yw Matiau Môr sy'n byw ar yr arwyneb ac yn edrych fel rhwyll gwyn mân.

* Mae mesuriadau yn dangos hyd y gwymon. Ond mae maint gwymon yn amrywio, felly canllaw bras iawn yw hwn.



## Lafwr

2 cm i 1 m*

*Porphyra a Pyropia*

Gwymon coch gwastad yw lafwr sydd ond yn un gell o drwch ond yn ddigon cryf i oroesi stormydd ar lannau creigiog. Maen nhw'n gallu bod yn hir a chul neu bron â bod yn grwn o ran siâp, gydag ystod eang o liwiau o goch i wyrdd-du.

O'r 5 rhywogaeth yng Nghymru, y Lafwr Gwydn cyffredin (*Porphyra umbilicaulis*) yw'r prif fath sy'n cael ei ddefnyddio i greu Bara Lawr. Mae pobl hefyd yn bwyta *Porphyra* yn Iwerddon a Japan, lle y caiff ei alw'n Slake a Nori. Mae'n teimlo, ac yn edrych, fel plastig elastig.



## Letys Môr

i 1 m*

*Ulva lactuca*

Mae Letys Môr hefyd yn cael ei alw'n Lafwr Dyn Tlawd. Mae'n denau ac yn wastad fel Lafwr ond lliw gwyrdd llachar sydd ganddo. Yn aml, ceir tyllau mewn Letysau Môr Hŷn. Edrychwch am y gwymon cyffredin ar hyd y lan gyfan.

Meddyliwch ddwywaith cyn bwyta gwymon cyffredin gan ei fod yn tyfu mewn llefydd gyda llawer o faetholion wedi'i achosi gan lygredd.

Mae tua 15 rhywogaeth letys môr ac *Ulva* perthynnol sy'n anodd gwahaniaethu rhyngddynt.



## Chwyn Plu wedi'i Seiffno

10 cm*

*Heterosiphonia plumosa*

Un o'r nifer o wymon bach, canghennog, uchel y gallwch chi eu canfod ar lannau creigiog. Gall golwg fanylach ddatgelu ei ganghennau hynod gain a phrydferth.

Gallwch chi hefyd ddod o hyd i wymon yn Oriel y Môr a'r casgliadau tu ôl i'r llenni yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Cafodd y sbesimen o'r casgliad Lewis Weston Dillwyn ei gasglu yn yr 1800au.



## Chwyn Cwrel

10 cm*

*Corallina, Ellisolandia a Jania*

Mae'r gwymon coch yma sy'n galed fel y dur yn cynnwys calsiwm carbonad. Mae hwn yn rhoi caledi iddo sy'n atal anifeiliaid rhag eu bwyta.

Mae'n gyffredin o amgylch ymylon pyllau cerrig. Mae'r canghennau pinc wedi eu rhannu'n adrannau llai, gyda thipiau gwyn.

Gall moroedd sy'n dod yn fwyfwy asidig oherwydd newid hinsawdd gael effaith gwael ar y gwymon hwn.